



YSGOL GYFUN GYMRAEG  
**GLANTAF**  
CORON GWLAD EI MAMIAITH

## Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf  
Caerdydd, CF14 2JL

**Pennaeth/Head:**  
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090

ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk

www.glantaf.cymru

Gorffennaf 15, 2022

Annwyl Riant / Warcheidwad,

### Llongyfarchiadau!

Wythnos diwethaf, cafodd tîm Merched dan14 Rygbi XIII, fuddugoliaeth nodedig yng ngêm derfynol Cwpan Prydain. Nhw yw'r tîm merched cyntaf o Gymru i godi'r tlws! Cael eu cyflwyno wedyn i'r dorf yn Stadiwm St James yn Newcastle yn ystod gêm Cwpan Pencampwriaeth Rygbi'r Gyngrhair bydd yn atgof am byth! Llongyfarchiadau i'r tîm cyfan am eu dycnwch, cymeriad a ffitrwydd i gipio'r gwpan a'i chludo'n ddiogel yn ôl i Gymru: gwych ferched! Llongyfarchiadau a diolch hefyd i bawb wnaeth redeg *Ras am Oes* ym Mharc Biwt dros y penwythnos a chodi arian at elusen mor bwysig.



*Pencampwyr Cwpan Prydain - merched Glantaf ar y brig!*

### Adroddiad Blynyddol

Ewch draw i'n gwefan newydd [Ysgol Glantaf](#) i ganfod gwybodaeth gyfredol ac hefyd i gael copi o'n adroddiad blynyddol i rieni: [Adroddiadau Blynyddol | Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf](#)

### Canlyniadau Profion Cenedlaethol BI 7-9

Mae canlyniadau Asesiadau Personol Darllen (Cymraeg a Saesneg) a Rhifedd (Gweithdrefnol) 2022 wedi'u huwchlwytho i gyfrif HWB eich plentyn. Caiff eich plentyn fynediad i'r adborth drwy fewngofnodi i'w cyfrif HWB personol ac yna clicio "Asesiadau Personol" a dewis Adborth Dysgwr neu Cynnydd Dysgwr. Os oedd eich plentyn yn absennol o'r ysgol pan safwyd yr asesiadau ym mis Mehefin, yna ni fydd adroddiad ar HWB. Am fwy o fanylion i'ch helpu i ddeall y canlyniadau, defnyddiwch y ddolen [hwb.gov.wales/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr](http://hwb.gov.wales/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr)

### Ymwelwyr o Ffrainc

Braf oedd croesawu athrawon o ddinas Paris ar ymweliad â Chymru i ddeall addysgu dwyieithog a hyrwyddo dysgu ieithoedd yr wythnos hon. Roedd yn gyfle ardderchog i fyfyrwyr y Chweched Dosbarth ymarfer eu hiaith lafar a chyflwyno bywyd yng Nglantaf i'n ymwelwyr.



*Academie de Creteil yn ymweld â Glantaf*

### Canlyniadau yr Haf BI 10-13

Dyma drefniadau casglu canlyniadau arholiadau yr haf, a phawb i'w casglu erbyn 11am ogydd:

Dydd Iau 18 Awst:	9am: BI 13 yn unig;	10am: BI 12 yn unig
Dydd Iau 25 Awst:	9am: BI 11 yn unig;	10am: BI 10 yn unig

### SHEP: Rhaglen Cyfoethogi Gwyliu Awst 1af - Awst 18fed

Mae'n braf cynnig rhaglen addysgol dros wyliau'r haf sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgarwch corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau iach. Mae gennym gapasiti ar gyfer 40 o ddisgyblion BI7&8 eleni. Mae presenoldeb ar y cwrs yn rhad ac am ddim a bydd yn cael ei gynnal ar safle'r ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch â chydlynnydd ein rhaglen, Ms Bethan Jones [Jonesb1384@hwbcymru.net](mailto:Jonesb1384@hwbcymru.net) cyn diwedd y tymor.

### Gwisg ysgol – tywydd twym ac ailgylchu

Mae tywydd twym iawn wedi ei ddarogan dros y penwythnos ac ar Ddydd Llun a Mawrth yr wythnos nesaf. Am hynny bydd caniatâd i ddisgyblion wisgo gwisg ymarfer corff, Crys T, scorts neu siorts rygbi ar gyfer dechrau'r wythnos nesaf. Bydd teithiau diwedd blwyddyn yn parhau fel arfer ond atgoffwn bawb i ddod â digon o ddŵr, eli haul a het ar gyfer y teithiau. Byddwn yn falch iawn o dderbyn rhoddion o wisg ysgol **mewn cyflwr da** (*wedi'i olchi a'r enw wedi ei dynnu o'r dilledyn*) er mwyn ei gynnig i deuluoedd a'i ailgylchu. Byddwn wedyn yn trefnu noson i gynnig y dillad i rieni a theuluoedd yn gynnar yn Medi.

### Cymorth i deuluoedd – gweithdai, prydau am ddim a chlybiau

Rydym wedi cynhyrchu taflen yn rhannu cysylltiadau gwerthfawr am weithdai a chyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion drwy gyfnod gwyliau'r haf. Mae'r ddolen wedi'i anfon atoch ar SIMS intouch ac mae copi hefyd ar ein gwefan: [cymorth i deuluoedd gwylie haf 2022.docx \(live.com\)](#)

### Adroddiadau Interim ac Adroddiadau Llawn (BI7-10)

Byddwn yn dosbarthu adroddiadau llawn diwedd blwyddyn (7-10) yn ystod yr wythnos nesaf i ddisgyblion a dylech fod wedi derbyn cofnod o gynnydd interim yn ystod y dydd heddiw.

### Gweithdai amrywiol Dydd Gwener 15 Gorffennaf!

Cafwyd dydd amrywiol tu hwnt yng Nglantaf heddiw: gweithdy Merlod a Chobiau Cymreig i BI7; Gweithdai *Adnoddau Smart* gan Adran Ffiseg, Prifysgol Caerdydd i rai dosbarthiadau BI 8 a 9 a Gig Radio Cymru gyda DJ Elan Evans, Eädyth Crawford a Chroma i BI 7 a 10 yn y prynhawn - heb sôn am alldeithiau Gwobr Dug Caeredin BI10 yr wythnos.

### Trefniadau a phrofiadau diwedd tymor

Gorff 18	Taith Parc y Deri (bl.8) – cofiwch het, eli haul a digon o ddŵr i'w yfed.
Gorff 19	Prynhawn Gwobrwyo Canolfan Glantaf
Gorff 20	Taith Parc y Deri (bl.9)
Gorff 20	Taith Sioe Frenhinol (bl.7 - 10)
Gorff 21	Taith Parc y Deri (bl.7)
Gorff 22	Diwedd tymor yr haf; 3pm fel arfer.

### Trefniadau dechrau Tymor yr Hydref 2022

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto cyn diwedd y tymor ond am y tro, ond dyma fanylion ar gyfer dechrau Tymor yr Hydref 2022:

<b>Medi 5:</b>	<b>HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)</b>
<b>Medi 6:</b>	<b>BI 7 a 12 yn unig (Gêm Cymru v Slofenia i ddilyn am 7.45pm)</b>
<b>Medi 7:</b>	<b>Dechrau tymor i bob disgybl</b>

Fel y gwelir uchod bydd pob disgybl BI 7 a 12 yn aros ar ddiwedd y dydd ysgol ar 6/9/2022 ac yn mynd i gefnogi tîm Cymru v Slofenia yn Stadiwm Dinas Caerdydd am 7.45pm. Os ydych wedi prynu tocyn i'ch plentyn BI 7-10 drwy Parent Pay byddwn yn rhannu'r tocynnau hyn i'r disgyblion cyn diwedd tymor. Noder, bod dyddiadau tymor 2022-23 a dyddiau HMS 2022-23 ar ein gwefan ynghyd â chopi o amseroedd newydd y dydd fydd yn dechrau ym mis Medi eleni. Gweler yma: [Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf](#)

Yn gywir,

Matthew H T Evans

Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



Ifan, William, Kier ac Osian (BI12) ynghyd â Zelda a Leli (BI11) Rhwyfwr yn Sgwad Cymru dros yr Haf